

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository:<https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/161476/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Hopwood, Llewelyn 2022. Testament Newydd Los Angeles. Cwlwm: Papur Bro Caerfyrddin , p. 8.

Publishers page:

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See <http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



## Testament Newydd Los Angeles

Beth yw'r cysylltiad rhwng Los Angeles, Abergwili, Llangynnwr, a Wilkinson's Caerfyrddin?


Fis Medi, bûm i ar drip ymchwil i Lyfrgell yr Huntington yn Pasadena, un o faestrefi Los Angeles, i wneud catalog o'r casgliad Cymreig bychan sydd yno. Mae'r Llyfrgell yn enwog yng Ngogledd America, a'r byd â dweud y gwir, am ei chasgliad cyfoethog o destunau a gweithiau celf Ewropeaidd, yn enwedig o'r cyfnod 1500–1800. Mae hefyd ganddi gasgliad arbennig o blanhigion gan fod y llyfrgell fodern a foethus hon wedi'i lleoli mewn gerddi botaneg sydd bron cystal â rhai Llanarthne, ond bod y gwres llethol, y coed palmwydd, a'r madfallod yn dra gwahanol.

Un o'r eitemau cyntaf i mi ei archwilio oedd copi o'r Testament Newydd yn y Gymraeg a gyhoeddwyd yn Llundain nôl ym 1567; un o'r llyfrau Cymraeg cyntaf i gael ei argraffu. Dyma'r tro cyntaf i'r Testament gael ei drosi i'r Gymraeg – cyn Beibl William Morgan ym 1588 hyd yn oed – a'r person fu wrthi oedd ysgolhaig galluog o Sir Ddinbych o'r enw William Salesbury. Heblaw am ambell i beth, does dim byd hynod o anarferol am y cynnwys Beiblaidd yn y copi hwn: dim nodiadau unigryw, dim 'doodles' rhyfedd, dim tudalennau ychwanegol. Yn hynny o beth, mae bron yn union fel yr oddeutu 60 o gopiau eraill sy'n bodoli ar draws y byd.

Ond nid hynny y sylweddolais arni yn gyntaf. Wrth agor y cloriau lledr coch tywyll, des wyneb yn wyneb â chymydog annisgwyl. Cyn tudalennau blaen y Testament ei hun, mae tri llythyr o 1901, a'r tri yn ymwneud â Syr Lewis Morris. Roedd yr enw yn canu cloch, ond pa gloch, wyddwn i ddim nes i mi ddarllen y cyfeiriad yng nghornel ucha'r llythyr cyntaf: 'Penbryn, Carmarthen'. Fel brodor o Langynnwr, adnabyddais yn syth wedyn mai 'Tŷ Penbryn' oedd hwn, sef y plasty melyn sy'n sefyll hyd heddiw ar dopiau'r pentref ac felly mai'r 'Lewis Morris' yma oedd yr un a enwyd yr ystâd newydd o dai sydd gerllaw ar ei ôl: 'Maes Lewis Morris'.




Pwy oedd y Syr hwn felly? Bardd, athro, a chasglwr llyfrau oedd Lewis Morris (1833–1907) a aned yng Nghaerfyrddin ac a addysgwyd yn Ysgol y Frenhines Elisabeth. Cyhoeddwyd ei gyfrol farddonol gyntaf *Songs of Two Worlds* deirgwaith a gwerthodd yr ail, *The Epic of Hades*, yn dda hefyd gan dderbyn dipyn o glod beirniadol. Bu hefyd ynghlwm ym myd addysg uwch Cymru, yn enwedig gyda Choleg Prifathrofaol Aberystwyth. Mae'r barddoni a'r ysgolheictod yn ei gysylltu â'r 'Lewis Morris' enwocach, sef ei hen ddadcu, Lewis Morris, neu 'Llywelyn Ddu o Fôn' (1701–65), o deulu barddonol enwog 'Morrisiaid Môn'. Yn wir, y Lewis gogleddol hwnnw oedd yn berchen ar y copi o'r Testament Newydd yn wreiddiol, ond mae'r llythyron ym mlaen y copi yn dangos fod Lewis Morris (Llangynnwr) wedi ei werthu allan o'r teulu. Dadl rhwng Lewis Llangynnwr a'r prynwr Bernard Quaritch drwy arwerthwyr Sotheby's sydd yn y llythyron; dadl ynghylch gwerth y copi gan fod Bernard yn honni fod tudalennau ar goll ac felly nad oedd y copi mor werthfawr a gallai fod. (Mae Lewis yn profi trwy ei gyfeillion academiaidd fod tudalennau ychwanegol mewn ambell i gopi diweddarach ond nid yn y gyfrol wreiddiol o 1567, felly mi roedd yn iawn i ddal ei dir am y pris am y tro.) Mae'r ohebiaeth hon yn esbonio, i raddau, beth mae'r llyfr Cymraeg hwb yn ei wneud yn Los Angeles oherwydd roedd Henry E. Huntington – sylfaenydd y Llyfrgell a dyn busnes cyfoethog – yn brynwr mawr yng ngwerthiannau Sotheby's a Quaritch yn y 1920au pan agorwyd y Llyfrgell am y tro cyntaf.



Dyna'r cysylltiad â Llangynnwr, felly. Beth am Abergwili? Wel, rhaid i ni fynd yn ôl at y gwaith o gyfieithu'r Testament Newydd ei hun. Oherwydd, er mai William Salesbury wnaeth y rhan helaeth o'r gwaith cyfieithu, bu dau arall wrthi hefyd: gŵr o'r enw Richard Davies, Esgob Tyddewi, a'i gydweithiwr, Thomas Huet, cantor Tyddewi. Wrth gwrs, hyd heddiw mai cartref Esgob Tyddewi yn Abergwili – a dyma'r rheswm dros enwi gerddi newydd Amgueddfa Sir Gaerfyrddin yn 'Barc yr Esgob' – ac mae'n debyg y bu'r union fan honno yn un o'r safleoedd lle bu'r tri wrthi yn cyfieithu rhannau o'r Beibl.

Ac yn olaf, felly, beth am Wilkinson's? Gwyddom fod siop Wilkinson's Caerfyrddin (neu Tesco gynt) ar safle hen fynachdy'r Brodyr Llwyd – mynachod urdd Sant Ffransis – a bod y bardd arbennig Tudur Aled wedi ei gladdu yno.

Wel, eto, er nad yw'r Testament ei hun yn arbennig o unigryw, mae yna nodiadau yn y dudalen a ddaw yn syth cyn clawr y Testament, ac yno, ceir copi o englyn gan Dudur Aled. Dyma englyn agoriadol mewn awdl yn moli Thomas Salesbury, tad/tad-cu William, y cyfieithydd, a dyna felly'r rheswm dros ei gynnwys yn y copi hwn o'r Testament.



Peth rhyfedd yw meddwl am daith hen lyfr fel hwn. Peth anodd ar brydiau hefyd. Ond trwy ddarllen manwl gallwn ddod â'r darnau ynghyd a theithio o Abergwili i Lundain i Sir Fôn i Langynnwr a'r holl ffordd draw i Los Angeles.

## Mynegai

Yn unol â rheolau hawlfraint Llyfrgell yr Huntington, mae angen rhoi'r cyferiaid isod gyda'r lluniau o'r Testament Newydd (y llun o'r llythyr ac o'r clawr coch):

William Salesbury, *Testament Newydd ein Arglwydd Iesu Christ* (Llundain: Henry Denham, 1567), 96533, The Huntington Library, San Marino, California.

Mae'r llun o Lewis Morris yn gyhoeddus

([https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Lewis\\_Morris\\_woodburytype.png](https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Lewis_Morris_woodburytype.png))

A fi biau'r lluniau eraill.

### LLUNIAU POSIB ERAILL:

- Llun o arwydd 'Maes Lewis Morris'?
- Llun o Dŷ Penbryn?
- Wilkinson's dre?
- Plac Tudur Aled tu fas i'r adeilad ar y gornel gyferbyn â'r Falcon?
- Llunai eraill dw i wedi eu danfon:
  - Englyn Tudur Aled
  - Llun o du fas un i un o orielau'r Huntington
  - Llun o glawr y Testament Newydd
  - Llun o'r Lewis Morris gogleddol
  - Coed palmwydd